

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Golygyddion

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWA SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.org

Dalier Sylw!

Cyhoeddir y Pedair Tudalen
Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r
Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys y Pedair Tudalen.

Teulu'r Wern

Rydym wedi cael y fraint o fod yn bresennol mewn nifer o gyfarfodydd cofiadwy iawn yn y Wern ond gyda'r mwyaf nodedig ohonynt oedd y cyfarfod a drefnwyd i lansio'r gyfrol sy'n cofnodi hanes un o gapeli Ystalyfera.

Fe gymerodd hyn le mewn gwasanaeth arbennig brynhawn Iau, 8 Rhagfyr yn y capel gyda llawer o gyfeillion yn bresennol, a braf oedd gweld llawr yr adeilad yn gyfforddus lawn.

Dechrauadau

Fel mae'r teitl *Teulu'r Wern* yn awgrymu, stori amdanom ni fel teulu yw prif thema'r gyfrol, ac mae mewn dwy ran. Mae'r rhan gyntaf yn mynd â ni nôl 150 o flynyddoedd at y dechreuadau cynnar, gan geisio cydnabod a chanmol y tadau gynt am eu gweledigaeth, eu hymdrechion ac yn fwy na dim eu haberth, wrth iddynt droi breuddwyd yn realiti, a mynd ati i sefydlu achos ac i godi capel hardd, sef Capel y Wern.

Gweithgareddau

Yn ail ran y llyfr, datblygir y thema mai teulu ydym yn y Wern. Fel teulu rydym wedi cael llawer iawn o achlysuron i ymlawenhau yn eu cych ac yn y llyfr tynnir sylw at rhain, sef y gwasanaethau a gynhelir, y cyngherddau a drefnir, y mudiadau a gefnogir a'n hamrywiol ddathliadau a'n hymdrechion er sicrhau bod yr adeilad mewn cyflwr da. Ond yn bennaf oll, mae'r llyfr yn deyrnged i aelodau'r Wern: maent wedi cyflawni cymaint gyda'i gilydd. Fel y mae nier ohonom wedi dweud droeon, mae aelodau'r Wern yn hynod garedig, gweithgar a chefnogol.

Yma, ar yr aelwyd hon mae cynhesrwydd ac ysbryd cyd-dynnu a chyd-weld ar eu gorau. Droeon rydym wedi ymdeimlo â bendith dawl, nefol fyd a

chael y gwllith yn drwchus o dan ein traed, wrth fwrw i mewn i'r tŷ a chael ein hunain ymhlith cyfeillion ar yr aelwyd. Y Wern yw testun ein cân, a'r aelodau – ffrindiau a chydweithwyr yn y Winllan - sydd wedi gwneud y stori yn bosib. Mae'n rhy fawr o stori i'w gadael heb ei chofnodi.

Cyfranwyr

Yn y gwasanaeth i lansio'r llyfr diolchwyd i bawb gyfrannodd at lwyddiant y llyfr, sef Gwasg

Morgannwg, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot (Carys Miles), Mrs Shân Rees y teipydd, y Parchedig Bernant Hughes, Mrs Eileen Evans, Dr Mair Walker, Siân Thomas S4C a Robat Powell. Fel arwydd o'n gwerthfawrogiad cyflwynwyd cyfrol i bob un o'r uchod. Cafwyd gair pwrpasol gan Eileen a Siân, a Glyn ac Anwen ar ran Ber Hughes. Braf croesawu cynrychiolydd o'r ddwy ysgol leol, sef Mrs Spurway, y Wern a Mrs Ann Lewis, Ysgol Gyfun Ystalyfera. Cydnabyddwyd hefyd gefnogaeth amhrisiadwy y

*Howard Roberts*

brodyr Rhys Williams, Howard Roberts a Dafydd Glyn Griffiths.

Awdur

Yn ystod y gwasanaeth canwyd dwy emyn, sef 'Arglwydd, melys ydyw cerdded i gyfeiriad Seion fryn' ar y dôn 'Cwm Rhondda' ac yn ail 'Glân geriwbiaid a seraffiaid' ar y dôn 'Sanctus'. Gyda Mr Doug Roberts yn ei le arferol wrth yr organ

*Gareth Hopkin ac Eileen Evans*

roedd tipyn o fynd ar y canu. Yn ychwanegol cafwyd dau ddatganiad hyfryd ganddo, sef 'Gabriel's Oboe' a 'Bring him home' a wnaeth argraff ddofn ar bawb oedd yn bresennol. Hyfrydywch pur oedd cael gwrando ar Mr Howard Roberts yn darllen, yn afaelgar a themladwy, ddetholiad o'r llyfr. Mr Rhys Williams, Ysgrifennydd y Wern estynnodd groeso i bawb i'r festri ar gyfer ychydig o luniaeth a baratowyd gan y Rheolau Arms ac a weiniwyd gan wragedd siriol a hawddgar y Wern. Rhys hefyd ddiolchodd i'r gweinidog, Mr Gareth Hopkin am ei gymwynas â'r Wern ac atgoffodd pawb o'r nodiadau ar glawr y llyfr, sef ei fod yn frodor o Graig-cefn-parc a'i fod wedi treulio ei fywyd ar ei hyd yn gweinidogaethu ac yn addysgu yng Nghwm Tawe. Priod faes yr awdur yw diwinyddiaeth ac mae'n meddu ar raddau ymchwil o Brifysgolion Cymru a Llundain. Yn sicr mae'r llyfr yn adlewyrchu ei ysgolheictod a'i ddoniaid ymchwil.

Yn goron ar stori fawr 'Teulu'r Wern' mae englyn campus Robat Powell.

Y Wern

Uwch gwynt penwan y Bannau – yn y Wern
Emyn hwyr y Tadau;
Sul ar ôl Sul sy'n dwysáu
Anadl ein sagrffennau.

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg
mewn cydweithrediad â CWM

Y Tŷ Cenhadol yn Amsterdam

Mae CWM unwaith eto yn ein gwahodd fel Undeb i gyflwyno enwau oedolion ifanc (18-25) sydd â diddordeb mewn treulio blwyddyn (Medi 2017 – Gorffennaf 2018) yn y Tŷ Cenhadol yn Amsterdam yn ymhel a gweithgarwch cydeithasol Cristnogol yn y ddinas dan nawdd ac yng ngwmni arweinyddion profiadol sy'n gysylliedig ag Eglwys Brotestannaidd yr Iseldiroedd (PKN).

Am fanylion pellach am y Tŷ Cenhadol, dylid ymweld â gwefan y Tŷ, sef www.missionhouse.nl/join-us.

Os bydd diddordeb gennych, cysylltwch ar eich cyfle cyntaf â Geraint Tudur yn Nhŷ John Penri, naill ai ar y ffôn (01792-795888) neu trwy anfon neges at geraint@annibynwyr.cymru



*Y rhai a fu'n cynorthwyo yr awdur Gareth Hopkin gyda chyhoeddi Teulu'r Wern.
Rhys Williams, Glyn Hughes, Eileen Evans, Anwen Hughes,
Ann Lewis, Lesley Spurway, Sian Thomas a Gareth Hopkin*

150
1867-2017

PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 150 Rhif 7 Chwefror 16, 2017 50c.

Plygain Nanternis

Cafwyd noson fendithiol iawn ym Mhlygain Nanternis ar 18fed Rhagfyr. Roedd y capel hynafol yn llawn i wrando ar y saith parti o garolwyr a ddaeth i gyfrannu. Yn unol â'r traddodiad nid oes fawr o drefnu o flaen llaw ac o ganlyniad mae'r arlwy yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Eleni, yn ogystal â phartion lleol croesawyd parti profiadol o ardal Caerfyrddin ac fe wnaeth pedwarawd Harmoni o

Ddyffryn Aeron ei gyfraniad cyntaf (ond nid yr olaf yn sicr) i wasanaeth Plygain. Daeth parti lluosog o blith Bois y Gilfach hefyd yn ôl eu harfer. I amrywio ychydig ar



Plygain Glynarthen



Cynhaliwyd gwasanaeth Plygain yng Nghapel Glynarthen ar nos Sul 15 Ionawr. Gwnaed casgliad er budd Canolfan Cancr Aberteifi.

y wledd fe adroddwyd nifer o englynion tymhorol gan Jon Meirion Jones.

Mae'r Blygain draddodiadol hon a drefnir gan Gylch Capeli'r Cei wedi cael ei chynnal ers rhyw ddegawd bellach ac wedi tyfu i fod yn un o uchafbwyntiau'r Adfent yn yr ardal. Mae sain unigryw i'n caneuon Plygain traddodiadol ac mae capel Nanternis yn gweddu'n hyfryd i'r achlysur. Gorffennwyd y noson yn y modd arferol gyda'r carolwyr oll yn uno i ganu Carol y Swper. Diolch i'r carolwyr ac i bawb a wnaeth y gwasanaeth yn llwyddiant cymdeithasol ac ysbrydol – a diolch am y swper a'i ddilynodd!

Gareth Ioan

Efengyl Tangnefedd

Yn Soar, Pen-y-groes, ar wahoddiad caredig yr Eglwys y bu'r Cwrdd Chwarter olaf 2016

Cyfundeb Llŷn ac Eifionydd. Cadeiriwyd gan Dafydd O. Roberts, Trefor (llun), a'r Parchg Iwan Llewelyn Jones, Borth-y-gest, oedd yn cyfeilio.

Diolchwyd i Eglwys Soar, am eu croeso ac am eu darpariaeth helaeth ar ein cyfer. Cyhoeddwyd yr emyn, *Ysbryd Glân, golomen nef* gan Alice Roberts, cyn bod Alun Ffred Jones, yn arwain y defosiwn.



Dafydd Iwan

Rhoes y Cadeirydd groeso cynnes i'r siaradwr gwadd, Dafydd Iwan, wrth ei gyflwyno a'i wahodd i'n plith a galw arno i'n hannerch. Dewisodd yntau annerch ar thema Heddwch, gan gyfeirio a chanu rhai o'i ganeuon rhyfel



adnabyddus. Tywysodd ni i Fietnam, Irac a Syria, a chlywsom am bobl fel Victor Jara a ddirdynwyd ac a laddwyd yn Santiago yn ystod teyrnasiad Pinoche

ym 1973, ac a ddaeth yn symbol o'r frwydr fawr dros gyfiawnder ac iawnderau dynol. Clywsom am Oscar Romero, Archesgob San Salvador a lefarodd mor gadarn yn erbyn tlodi ac anghyfiawnder ac a ddirdynwyd a'i ladd wrth yr allor ym 1980. Diolchwyd i Dafydd Iwan am ei gyfraniad, a oedd, ar lawer ystyr, yn gyfraniad unigryw a gwahanol.

Cofnodion

Wedi canu'r emyn, *Dyro dy gariad i'n clymu*, a gyflwynwyd gan Val Jones-Griffith, derbyniwyd yn gywir Gofnodion Cwrdd Chwarter Maesyneuadd, Trefor. Cododd y materion canlynol o'r cofnodion.

Gwerthiant Salem, Y Ffôr

Adroddodd yr Ysgrifennydd iddo gael ei alw i weld J. Bryn Williams, Cyfreithiwr y Cyfundeb, ynglŷn â materion yn ymwneud â gwerthiant Capel Salem. Yr oedd rhai materion i'w trin eto cyn y gallai'r gwerthiant fynd rhagddo.

Ymddiriedolwyr

Cyfeiriodd Gwynfor Ellis, Mynytho, Ysgrifennydd Ymddiriedolaeth Capel Newydd, Nanhoron, fod dau gyfarfyddiad o'r Ymddiriedolaeth wedi bod oddi ar Gwrdd Chwarter Trefor, a

parhad ar dudalen 2

W, WP, neu William Williams?

Gwelsom yr wythnos diwethaf fod William Williams, Pantycelyn wedi gosod ei fryd ar fod yn feddyg. Ond daeth tro ar fyd a chyfarfyddiad oedd mor syfrdanol nes newid cyfeiriad ei fywyd yn llwyr. Dyma'r Dr. Eifion Evans yn parhau gyda'r hanes.



Bywyd Newydd

Pa newid, dwedwch, allai fod mor dyngedfenol?

Newidiwyd, nid yn unig cyfeiriad ei alwedigaeth, ond sylwedd ei argyhoeddiad a blaenoriaethau ei fywyd.

Ar y ffordd gartref o Lwynllwyd rhyw ddiwrnod clywodd Howel Harris yn pregethu ym mynwent eglwys Talgarth; yn ei galon teimlodd ei bechod fel baich annioddefol, peryglus; ffodd rhag pwyso ar ei grefydd i bwysu yn unig ar Grist am faddeuant a bywyd tragwyddol. Yr oedd i'r fath brofiad sylwedd cadarn sef awdurdod y geiriau a glywodd a pherthnasedd iddo ef yn bersonol. Bellach a byth mwy, bu Gair Duw a Mab Duw yn rheoli ei fywyd. Dychwelodd adref yn 'greadur newydd', yr un yn ei ddynoliaeth ond yn wahanol ei osgo.

Cwmni Newydd

Daeth iddo hefyd gwmni newydd, brodyr yn y ffydd: Daniel Rowland, Griffith Jones, Howel Davies a Peter Williams. Ynghyd â Harris yr oedd gan bob un ohonynt ran flaenllaw yn y cyffro ysbrydol oedd ar led yn Ne Cymru, ac megis hwythau bwriodd Williams ei goelbren i weinidogaethu yn yr Eglwys Wladol. Ordeiniwyd ef yn 1740 i wasanaethu fel curad yn hen eglwys Llanwrtyd ynghyd ag eglwys fechan Abergwesyn. Gwrthodwyd urddau llawn iddo oherwydd ei Fethodistiaeth, a phenderfynwyd ei fod i gynorthwyo Rowland yn Llangeitho. Treuliodd gweddill ei weinidogaeth gan arddel y Fethodistiaeth Galfinaidd a ddaeth i fri yn y wlad gan deithio, pregethu, cadw seiat, a llenyddda.

Cyfeiriad Newydd

Priododd Williams ferch o Lansawel, Mary Francis, tua 1749 ac aeth y ddau i fyw gyda'i fam ym Mhantycelyn. Yr oedd hi yn wraig dduwiol ac annwyl, a'i thalent fel cantores yn ddefnyddiol i briodi tŷn i eiriau emynau ei gŵr. Ganwyd iddynt wyth o blant, ond bu farw un yn bythefnos oed. Daeth ei ddau fab yn ffeiradon- yr hynaf, William, yng Nghernyw, a John yng Nghymru.

Dywedir fod Williams ei hun yn fychan o gorffolaeth a chyflym ei gerddeddiad. Roedd llygaid glas ganddo ac roedd yn fraeth ei eiriau.

Rhywdro cafodd ei was drafferth i ddweud wrtho fod ei geffyl wedi trigo.

O'r diwedd mentrodd arni gyda'r geiriau, 'mae'r geffyl wedi mynd i dragwyddoldeb'.

'Ho', meddai Williams ar unwaith, 'gobeithio nad aeth a'r cyfrwy gydag ef!'

Yr oedd Harris yn nodedig am ei ddifrifwch, a wynebodd Williams a Rowland ei gerydd droeon am eu hysgafnder. Gyda'i ddiffyg amynedd ar adegau byddai Williams yn brudd, a dywedai yn aml mai yn y dyfnder y byddai'n dod o hyd i'r meddyliau mwyaf ysbrydol a nefol.

Crynhoi Gyrfa

Cyfnodau oedd yn gymysgwch o lwyddiant, erledigaeth, gwyradau a thawelwch a brofodd y Methodistiaid cynnar. Yn y

pumdegau neilltuodd Harris i Drefeca a'i 'deulu' ysbrydol, a disgynnodd holl ofal y Methodistiaid ar Rowland a Williams. Yna daeth diwygiad grymus arall, wedi ei ganoli yn

Llangeitho yn 1762. Dyma flynyddoedd o lafur eithriadol o bwysig i Williams, yn emynau, yn gerddi hir ac ysgrifau ymarferol ar gyfer y dychweledigion. Brithwyd ei flynyddoedd olaf â marwnadau i fach a mawr, gan gynnwys llyegwyr yn ogystal â'r cewri megis George Whitefield, Griffith Jones, Harris a Howel Davies, a'r olaf ohonynt oll, i neb llai na Daniel Rowland ei hun.

Gwaddol

Erbyn hyn pa olion sydd ar ôl o'n hedmygodd a'n dyled i ŵr oedd mor ddylanwadol yn ein gwlad am ddwy ganrif a rhagor? Cenir 'Guide me O Thou great Jehovah' mewn un ffurf neu'i gilydd pan fo Cymru yn chwarae rygbi, ond mae ystyr geiriau ei emynau wedi diflannu o'r wlad. Gwan yw Methodistiaeth Galfinaidd, gwag y capeli, estron y ddiwinyddiaeth a roddodd ffyniant iddo. Tlotach, tlotach yw ein bywydau o'r herwydd. Cyfraniad mawr Williams oedd tynnu sylw at fawredd a hawddgarwch Ceidwad pechaduriaid, hybu adnabyddiaeth a mwynhad o Dduw, a sicrhau sylfaen diogel ar gyfer tragwyddoldeb i filoedd o'i gydgenedl.

Beth am geisio elwa o'i athrylith ysbrydol unwaith eto? Mae gennym flwyddyn gyfan o gyfle o'n blaen.

Eifion Evans, Crosshands

Efengyl Tangnefedd - parhad

bod un arall wedi ei drefnu yn gynnar yn 2017. Dywedodd Alun Ffred Jones, fod John Dilwyn Williams, Pen-y-groes, wedi gweithredu fel Cadeirydd dros dro. Bydd rhaid cysylltu â'r Comisiwn Elusennau er mwyn penodi Ymddiriedolwyr newydd.

Deddf Tai

Adroddodd yr Ysgrifennydd iddo gysylltu â holl eglwysi'r Cyfundeb yn tynnu sylw at ofynion Deddf Tai Cymru 2014 a'i hatgoffa fod rheidrwydd ar i Ymddiriedolwyr pob mans, tŷ capel ac unrhyw dai eraill y mae eglwysi yn eu rhentu sicrhau eu cofrestru cyn Tachwedd 2016.

Gohebiaeth:

Pwyllgor Cenhadaeth

Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd, ar gais y Parchg Geraint Hughes, Pwllheli, fod Pwyllgor Cenhadaeth Gartref Sir Gaernarfon i'w gynnal.

Cynhadledd

Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd, ar gais y Parchg Ddr. Geraint Tudur, y Gynhadledd a oedd i'w chynnal yng Nghaerfyrddin ar thema Dianc Rhag yr Hunan.

Ymweliad Efenglydd

Mae cyfarfod yn Y Bala o dan arweiniad yr efenglydd Michael Ots.

Y Ffordd

Ar gais y Parchg Casi Jones, cyfarfu Pwyllgor Bugeiliol y Cyfundeb a bu trafod ar Gynllun Y Ffordd Undeb yr Annibynwyr. Gwahoddwyd y Parchg Casi Jones i gyflwyno'r Cynllun yn y Cwrdd Chwarter. Gwnaeth hithau hynny'n gryno a chlir gan annog y cylchoedd gwahanol i gyfarfod i ystyried a thrafod y defnyddiau a oedd i'w paratoi. Cafwyd cyfle i ofyn cwestiynau, a chafwyd trafodaeth frwd.

Cwrdd Chwarter Nesaf

Bydd y Cwrdd Chwarter nesaf yn Siloh, Chwilog, ar Nos Lun, Chwefror 13, 2017. Y siaradwr gwadd fydd y Parchg Athro Emeritws Dr Gareth Lloyd Jones, Llandegfan. Wedi canu'r emyn, *Efengyl tangnefedd, O red dros y byd*, a gyflwynwyd gan Elizabeth A. Jones, Soar, Pen-y-groes, cyhoeddwyd y mendith gan yr ysgrifennydd. Yr oedd cyfeillion Soar, Pen-y-groes, wedi paratoi paned a lluniaeth i bawb.

Ioan W. Gruffydd,
Ysgrifennydd

Barn Annibynnol

Y GAIR YN Y CANOL? O'R BRAIDD!

Yn ei erthygl olygyddol yn rhifyn Chwefror 9fed o'r Tyst fe ddywed y Golygydd,

Y mae'r Efengyl Gristnogol yn rhoi'r llanast presennol yng nghyd-destun cariad a mawredd Duw. Ein cyfrifoldeb yw dod ag egwyddorion Teyrnas Dduw i fyd dryslyd a thoredig gan gyflwyno'r gobaith a'r cyfiawnder sydd yn Iesu. Bod yn ein cymunedau fel halen, dylanwadu ar y cylchoedd gwleidyddol fel goleuni...

Yn union! A dyna pam mae'r Beibl mor ganolog i fywyd Cristnogion. Ynddo y cawn wybod am 'gariad a mawredd Duw'; ynddo y dysgw'n, drwy Iesu, am 'egwyddorion Teyrnas Dduw'; ynddo y cawn ddeall gofynion 'gobaith a chyfiawnder'; ynddo y deawn i ddeall sut mae bod 'yn halen... ac yn oleuni' yn ein dydd. A dyna pam y mae'n drist fod y Beibl fel petai'n cael llai a llai o sylw, nid yn unig yn y gymdeithas yn gyffredinol, ond ymhlith Cristnogion yn benodol.

Y Beibl yn Hanfodol

Mae o'r pwysigrwydd mwyaf, felly, fod y Beibl wedi cael sylw amlwg iawn yn ystod blwyddyn gyntaf Y Ffordd. Bu'n gyfle i ni feddwl o'r newydd am le'r Beibl yn ein bywyd personol fel disgyblion Iesu, ym mywyd yr Eglwys ac ym mywyd y byd. Os nad ydych wedi defnyddio deunydd Y Ffordd eto, cymerwch olwg ar wefan yr Annibynnwyr (www.annibynnwyr.org/y-ffordd-3/) neu cysylltwch â Thŷ John Penri. Mae yno gyfoeth i adeiladu gwybodaeth a meithrin ffydd.

Y gwir yw na fu cyfnod yn ein hanes pan fu mwy o angen am ysbrydoliaeth, gweledigaeth ac anogaeth y Beibl ym mywyd yr eglwys ac yn y bywyd cyhoeddus. Ym mlwyddyn dathlu dechreuadau'r Diwygiad Protestannaidd pan hoeliodd Luther ei 95 *thesis* wrth ddrws yr Eglwys Gadeiriol yn Wittenberg a thrwy hynny osod y Beibl unwaith eto ynghanol bywyd yr Eglwys, mae cyfle bendigedig inni fynd ati i adfer ei briod le i'r Beibl yn ein bywyd Cristnogol a'r bywyd cyhoeddus.



Noel A. Davies

trafod her y Beibl heddiw. Mewn atsain o'r hyn a ddwedir yn un o fideos Y Ffordd, fe ddywed fod 'yr eglwys wedi colli hyder yn y Beibl. 'Dyw pobl ddim yn gwybod sut mae ei ddarllen. Mae eu ffrindiau a'u cydweithwyr yn ei fychanu...' Cyn dod i'r swydd hon gyda'r Gymdeithas roedd Paul Williams yn Athro Diwinyddiaeth y Farchnadfa (Marketplace Theology) yn Vancouver. A dyna fynd â ni i ganol yr her fwyaf i dystiolaeth Gristnogol heddiw. Sut fedr yr eglwys Gristnogol yng Nghymru sicrhau fod llais y Beibl yn cael ei glywed a'i wrando yn y bywyd cyhoeddus?

Gwerthoedd Cristnogol

Dyna ran o'r hyn sy'n cael ei gyflawni gan Weithgor yr Eglwys ar Gymru ac Ewrop (a wthiwyd i'r dŵr gan yr Annibynnwyr ac sydd wedi ei groesawu a'i gefnogi gan eglwys ac enwadau Cytûn). Trwy'n hymatebion i geisiadau am fewnbwn i drafodaethau'r Pwyllgorau Seneddol ar Faterion Cymreig ac ar Hawliau Dynol ac Ymgynghoriad y Cynulliad ar Brexit a Datganoli, rydym wedi ceisio sicrhau fod y gwerthoedd Beiblaidd, Cristnogol, yn cael llais yn y drafodaeth gyhoeddus. Drwy bwysleisio tosturi a chyfiawnder, haellioni a chroeso, cydraddoldeb a thegwch ar draws bywyd ein cymdeithas ac yn agweddau'r cenhedloedd hyn pan fyddwn wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd rydym yn pwysleisio'r gwerthoedd Beiblaidd sy'n ganolog i Deyrnas Dduw fel ei dysgwyl a'i byw gan Iesu. Mae cenedl wâr a chenedl sydd â'i sylfeini, ers y canrifoedd cynnar, yn yr Efengyl Gristnogol yn anrhydeddu pawb fel ei gilydd, yn croesawu pawb fel ei gilydd, yn ymdrechu dros hawliau pawb fel ei gilydd, ac am fod yn rhan o deulu'r cenhedloedd yn eu holl amrywiaeth cyfoethog. Gwerthoedd Beiblaidd yw'r rhain. Ein galwad a'n braint yw bod yn lleisiau i'r gwerthoedd hyn ym mywyd yr eglwys, ein cymunedau a'n cenedl. Mae bod yn dawel yn gwadu'n galwad a'n cyfrifoldeb Cristnogol ac yn diraddio'r Beibl yn ein bywyd cyhoeddus.

Ffenestr i Olud

Yng ngeiriau Paul Williams, 'Mae'r Beibl fel ffenestr i olud bywyd Duw sy'n bywhau'r enaid, yn cyfoethogi'r meddwl, yn symbylu'r deall ac yn ehangu'r galon.' Fel y dwedodd Paul wrth Gristnogion Rhufain: 'Fe ysgrifennwyd yr Ysgrhythurau gynt er mwyn ein dysgu ni, er mwyn i ni, trwy ddyfalbarhad a thrwy eu hanogaeth hwy, ddal gafael yn ein gobaith' (Rhufeiniaid 15.4). Yn union! Felly, ymrown i gadw'r Beibl yn y canol nid fel etifeddiaeth gysegredig yn unig ond fel grym trawsnewidiol, cyfoes.



Paul Williams

Noel Davies

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynnwyr na'r tîm golygyddol.)

Pêr Ganiadau

Eleni dathlwn drichanmlwyddiant geni'r Pêr Ganiedydd, William Williams, Pantycelyn. Yn ystod yr wythnosau nesaf gwahoddwn nifer o ddarlennwyr y Tyst i ddewis eu hoff emyn ganddo gan roi rheswm am eu dewis. Daw'r dewis hwn gan y Parchg Dr. R. Alun Evans, cynlywydd Undeb yr Annibynnwyr Cymraeg.

Bu sain y delyn yn swn cyfarwydd i ni fel teulu. Ai dyma'r offeryn a glywir yn y nefoedd? Fe wn i fy ngwendidau ac am ras maddeuol Iesu. 'Ti faddeuaist fil o feiau i'r pechadur gwaetha'i ryw' meddai Pantycelyn. Ac eto, "Cudd fy meiau rhag y werin ..." Dyhead dynol. Y pennill o'r emyn hwnnw sy'n apelio yw:



"Rho fy nwydau fel cantorion, oll i chwarae'u bysedd cun ar y delyn sydd yn seinio enw Iesu mawr ei hun; neb ond Iesu fo'n ddiwyrrwch ddydd a nos."

Amen ac Amen.

William Williams, Pantycelyn Marwnad i Howel Harris.

'Dewch gwrandewch ef yn pregethu Calon ddrwg, lygredig dyn, Ac yn olrhain troeon anial, A dichellion sy yno ynglŷn; D'od i'r golau a dirgelion I rai duwiol oedd yng nghudd Agor hen stafelloedd tywyll Angeu glas i oleu'r dydd.

Dewch gwrandewch ef yn agoryd Dyfnder iachawdwriaeth gras! Gosod allan y Messiah Yn y lliw hyfryta'i maes; Ac yn dod i'r cystuddiedig Ag sy'n ofni ei ras a'I rym, Fel i chwerthin o orfoledd Ac i mado heb ofni dim.

Y mae'r iachawdwriaeth rasol Yn cael ei rhoddi i maes ar led, Ac sy'n cymhell mil i'w charu, Ac I roddi ynddi eu cred; Haeddiant Iesu yw ei araith Cysur enaid a'i iachâd Ac euogrwydd dua pechod Wedi ei ganu yn y gwaed.

A dyma'r hanes afaelodd yn Williams ei hun

Dyma'r bore, fyth mi gofiau, Clywais innau lais y Nef; Daliwyd fi wrth wŷs oddi uchod Gan ei sŵn dychrynlyd ef...



Her y Beibl

Mewn cyhoeddiad gan Gymdeithas y Beibl y mae llawer o ddarlennwyr Y Tyst wedi ei weld, mae'n siŵr gen i, mae'r cyfarwyddwr newydd, Paul Williams, yn